Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

# Canllawiau ar gyfer cwblhau cais am gymorth cynnwys y cyhoedd

## Cefndir

Mae'r ddogfen hon i'ch helpu i ystyried sut yr hoffech gynnwys aelodau'r cyhoedd, cleifion, defnyddwyr gwasanaeth neu ofalwyr yn eich ymchwil. Mae'n rhoi arweiniad i chi am y wybodaeth y bydd angen i chi ei darparu wrth gwblhau'r cais ar-lein am gymorth.

Mae Safonau Cynnwys y Cyhoedd y Deyrnas Unedig Safonau Cynnwys y Cyhoedd y DU | Ymchwil Gofal Iechyd Cymru (healthandcareresearchwales.org) wedi eu hystyried wrth ddatblygu'r broses hon.

**Cyn llenwi'r ffurflen, ystyriwch pam, sut a phryd y byddwch yn cynnwys pobl yn eich ymchwil. Efallai yr hoffech drafod hyn gydag ymchwilwyr eraill neu gyda ni. Gallwch gysylltu â thîm ymgysylltu a chynnwys y cyhoedd drwy research-involvement@wales.nhs.uk neu ffonio 02920 230 457.**

**Mae tudalen un o'r ffurflen gais yn gofyn am eich gwybodaeth sylfaenol. Gweler isod am arweiniad ar dudalennau dau a thri o'r ffurflen:**

| **A yw'r prosiect yn y cam datblygu ymchwil, neu a yw'n cael ei ariannu?** |
|---|
| **Cam datblygu -** Ar gyfer prosiectau sy'n cyd-fynd â'r seilwaith ac yn y cam datblygu/cyn ariannu, gallwn ariannu gweithgarwch cynnwys y cyhoedd o'r Gronfa Galluogi Cyfranogi.<br><br>**Yn cael ei ariannu** – Gall cyllid fod gan gyllidwyr grantiau neu o fewn cyllideb eich sefydliad ar gyfer cyfranogiad y cyhoedd. |
| **Os yw ar y cam datblygu ymchwil, gyda phwy fyddwch chi'n gwneud cais am gyllid neu os yw'r prosiect eisoes wedi'i ariannu, pwy sy'n ariannu'r prosiect?** |
| **Os yw ar y cam datblygu** - Gall y tîm cynnwys ac ymgysylltu â'r cyhoedd ddarparu cymorth gyda'ch bwriad i gynnwys y cyhoedd sy'n cynnwys datblygu hysbyseb i aelodau'r cyhoedd i gymryd rhan yn eich ymchwil. |

| |
|---|
| Dylai'r gyllideb ar gyfer cynnwys y cyhoedd ystyried costau teithio, cynhaliaeth, costau plant neu ofalwyr, yn ogystal â chydnabyddiaeth y gellir ei gynnig i aelodau'r cyhoedd gyda chyfradd o hyd at £25 yr awr yn cael ei hargymell am yr amser sydd ei angen ar yr ymchwil.<br>Nid oes rhaid derbyn y rhain a dylai fod yn glir y gellir gofyn am symiau llai. Dylid cyfeirio aelodau'r cyhoedd i gysylltu â thîm cynnwys y cyhoedd i gael cyngor os oes angen.<br><br>**Os yw eisoes yn cael ei ariannu -** Nid yw'r Gronfa Galluogi Cyfranogi ar gael ar gyfer astudiaethau wedi'u hariannu a ddylai fod wedi ystyried y goblygiadau ariannol i gynnwys y cyhoedd yn eu ceisiadau cyllido. Ar gyfer astudiaethau sy'n cael eu hariannu, gallwn recriwtio aelodau o'r cyhoedd i'ch helpu drwy'r prosiect ymchwil. |
| **Os ydych yn gwneud cais am ddyfarniad personol neu brosiect Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, dywedwch wrthym ni pa un?** |
| Dyfarniad personol \| Ymchwil Gofal Iechyd Cymru (healthandcareresearchwales.org) |
| **Os yw'n cael ei ariannu, a ydych wedi cyllidebu ar gyfer cynnwys y cyhoedd yn y prosiect?** |
| **A oes gennych ddigon o gyllideb i gefnogi teithio a llety posibl o unrhyw leoliad? Os na, nodwch y pellter y gallwch gefnogi pobl sy'n teithio.** |
| **A yw'r prosiect hwn yn gysylltiedig â chais blaenorol am gymorth sy'n cynnwys y cyhoedd? Os felly, rhowch y teitl.** |
| Gan fod teitlau'n aml yn newid yn ystod datblygiad, bydd hyn yn sicrhau ein bod yn ymwybodol os ydym eisoes wedi cefnogi'r prosiect neu os yw'n un newydd. |
| **Rhowch grynodeb byr o'r hyn y mae'r prosiect yn ei olygu mewn termau syml i'r cyhoedd ei ddeall a chynnwys pam mae'n bwysig i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.** |
| Bydd disgrifiad syml o'r astudiaeth ymchwil yn ein cynorthwyo i ddatblygu hysbyseb syml addas. |
| **Rhestrwch y gweithgareddau y byddwch yn gofyn i'r aelod/aelodau o'r cyhoedd ei wneud i fod yn rhan o'ch prosiect fel rhan o'u cyfraniad.** |
| Bydd angen i chi ystyried yr hyn rydych chi'n gobeithio ei gyflawni i benderfynu sut y gellid gwneud hyn. Bydd angen i chi hefyd ystyried sut y byddwch yn mesur os cyflawnwyd hyn ac effaith cyfranogiad y cyhoedd yn eich astudiaeth. |
| **Beth yw'r manteision unigol y bydd y cyhoedd yn eu cael wrth gymryd rhan yn eich prosiect?** |

| |
|---|
| E.e. sgiliau cyfarfod, casglu data, cyflwyno, |
| **Faint o aelodau o'r cyhoedd yr hoffech eu cynnwys?** |
| Rydym yn argymell o leiaf dau o bobl. |
| **Darparwch unrhyw sgiliau, profiad neu wybodaeth benodol sydd eu hangen i gymryd rhan yn y prosiect? e.e. y cyflwr, triniaeth neu wasanaeth y mae'r prosiect hwn yn ymwneud ag ef.** |
| E.e. claf canser ar gyfer astudiaeth canser, pwyllgor a sgiliau cyfarfod ar gyfer pwyllgor llywio treial. Bydd y wybodaeth hon yn ein helpu i ddisgrifio'r meini prawf ar gyfer pwy all gymryd rhan. |

| |
|---|
| **Faint o amser fydd angen i aelodau'r cyhoedd ei neilltuo ar gyfer cyfarfodydd ac adolygu dogfennau?** |
| Bydd y cwestiynau canlynol yn ein helpu i ddeall pa ymrwymiad sydd ei angen ar aelodau'r cyhoedd:<br>• Sawl cyfarfod sydd ei angen?<br>• Am ba hyd y bydd pob cyfarfod yn para (o fewn oriau neu ddiwrnodau)?<br>• Pa mor aml mae cyfarfodydd yn cael eu trefnu (yn wythnosol neu'n fisol)?<br>• Am ba hyd y bydd yr aelod o'r cyhoedd yn cymryd rhan?<br>• Faint o amser sydd ei angen i baratoi a/neu adolygu dogfennau?<br>• Sut y bydd unigolion yn cael eu dewis o'r ffurflenni mynegi diddordeb?<br>• Pa gymorth a roddir i gyfranogwyr, er enghraifft hyfforddiant neu gyswllt penodedig?<br>• A oes dyddiad cau ar gyfer dod o hyd i aelodau o'r cyhoedd ar gyfer y prosiect?<br>• A oes dyddiad penodol pan fydd angen i aelodau o'r cyhoedd fod ar gael (e.e. ar gyfer y cyfarfod cyntaf)? |
| **Ydych chi'n hapus i ni hysbysebu ar y cyfryngau cymdeithasol?** |
| **Ydw** -Bydd hyn yn cael ei ddosbarthu gan dîm cyfathrebu Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru gydag arbenigedd cyfryngau cymdeithasol ac yn caniatáu mynediad i gynulleidfa ehangach na'r rhai sydd wedi'u cofrestru gyda'r gymuned gyfranogi gyhoeddus.<br><br>**Nac ydw** - Os na, efallai y byddwn yn gofyn i chi ailystyried os na dderbynnir unrhyw ffurflenni mynegi diddordeb. |

**Ar ôl i chi gwblhau a chyflwyno'r ffurflen i dîm cynnwys ac ymgysylltu'r cyhoedd, byddwn yn:**

- Adolygu eich cais am gymorth i ddod o hyd i aelod(au) o'r cyhoedd i'ch helpu yn eich ymchwil
- Cysylltu â chi i gadarnhau bod y ffurflen ar-lein yn cael ei derbyn a thrafod unrhyw gwestiynau sydd gennym gyda chi
- Byddwn yn gallu cadarnhau os yw'r gronfa sydd gennym ar gael ar gyfer eich bwriad i gynnwys y cyhoedd.
- Datblygu hysbyseb y byddwch yn ei chymeradwyo cyn i ni ei dosbarthu i'r

gymuned gynnwys y cyhoedd a sianeli eraill os yw'n briodol

- Anfon yr holl ffurflenni mynegi diddordeb priodol a gyflwynir i ni atoch i'w hystyried.

Sylwch na fydd yr hysbyseb yn darparu'r holl fanylion y bydd eu hangen ar aelodau’r cyhoedd ar ôl eu penodi. Bydd angen i chi gysylltu â'r aelodau o’r cyhoedd a ddewiswyd. Os nad ydych wedi cynnwys aelodau o'r cyhoedd o'r blaen, mae rhestr wirio apwyntiadau ar gael ar ein gwefan i chi ei defnyddio - Cynnwys y cyhoedd yn eich ymchwil | Ymchwil Gofal Iechyd Cymru (healthandcareresearchwales.org)